# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU DYDD IAU, 14 MEHEFIN 2018

**YN BRESENNOL:**

**Y CYNGHORWYR:** Stephen Churchman, Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Peter Garlick, Simon Glyn, Annwen Hughes, Aled W Jones, Berwyn Parry Jones, Elwyn Jones, Kevin Morris Jones, Edgar Wyn Owen, Mike Stevens, Catrin Wager, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams a Owain Williams

**SWYDDOGION:** Gareth James (Rheolwr Aelodau - Cefnogi a Chraffu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD** ail ethol y Cynghorydd Seimon Glyn yn Gadeirydd y Pwyllgor Craffu hwn am 2018/19.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD** ail ethol y Cynghorydd Mike Stevens yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu hwn am 2018/19.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Keith Jones a Linda Morgan,

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 6. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 19.4 2018 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

## 7. DIWEDDARIAD AR YMCHWILIAD CRAFFU CYNLLUNIO A'R IAITH GYMRAEG

Yn dilyn cyfarwyddyd cyfreithiol mynegodd y Cadeirydd, oherwydd anghysondebau rhwng cynnwys yr adroddiad a'r ddogfen hwyr a ddosbarthwyd (cofnodion Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 26.4.18) nad oedd modd trafod pob cymal o'r adroddiad. Yn dilyn y cyngor cyfreithiol, penderfynodd y Cadeirydd mai gwell fyddai gohirio yr eitem.

Ychwanegodd ei fod am wneud cais i gadeirydd yr ymchwiliad ynghyd a'r aelodau i edrych ar yr anghysondebau a chynnig sylwadau.

**PENDERFYNWYD gohirio yr eitem**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 10.10 y.b.

**CADEIRYDD**